**P-06-1365 Ail-agor llinellau rheilffordd i gysylltu gogledd a de Cymru, Gohebiaeth – Deisebydd i'r Pwyllgor, 08.11.23**

At sylw aelodau'r pwyllgor deisebau

Rwy'n falch iawn o weld bod y ddeiseb i 'Ail-agor llinellau rheilffordd i gysylltu gogledd a de Cymru' wedi cyrraedd y pwyllgor deisebau gydag agos i 13,000 o lofnodion. Mae'r ymgyrch yma'n un sy'n bwysig iawn imi, fel rhan o'r ymgyrch mi gerddais ran fwyaf o'r ffordd o Fangor i Gaerdydd, gan ddechrau drwy ddilyn yr hen lwybr trên o Fangor i Afon wen, yna dilyn llinell y Cambrian lawr i Aberystwyth, wedyn cerdded yr hen reilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin, ac yna cerdded rhan fwyaf o'r ffordd rhwng Caerfyrddin a Chaerdydd (bu'n rhaid imi ddal y trên yn Llanelli hyd at Ben-y-bont ar Ogwr gan fod fy nhraed wedi anafu'n ddrwg ar y daith). Gorffennais y daith o flaen y Senedd ar y 27ain o Fedi - cerddais 206 o filltiroedd i gyd dros 10 diwrnod.

Mae'r ymgyrch yma'n allweddol felly at ddyfodol Cymru, yn bennaf i'r nifer o bobl yng Nghymru sy'n gorfod teithio rhwng y gogledd a'r de er mwyn cael gwaith, a hefyd er mwyn cryfhau'r cymunedau gwledig sy'n wasgar ar hyd y gorllewin, a chryfhau'r iaith, gan fyddai'r rheilffordd yn mynd trwy gadarnleoedd y Gymraeg. Yn bennaf, yr hyn rwy'n gobeithio gweld yn digwydd yw cael astudiaeth dichonoldeb a sgôp ar y llinell rhwng Afon wen i Fangor, fel cafwyd ar linell Caerfyrddin i Aberystwyth agos i ddegawd yn ôl, a hefyd astudiaeth yn edrych ar y beth fydd effeithiau cael rheilffordd yn cysylltu Cymru'n fewnol o'r gogledd i'r de.

Mae'n bwysig hefyd nodi bod ailagor rheilffordd Bangor - Caernarfon wedi bod yn rhan o strategaeth Llywodraeth Cymru ers dros ugain mlynedd bellach, a bod y dirprwy Weinidog wedi cadarnhau bod achos busnes cryf i'r cynllun yma. Mae'n allweddol rŵan bod astudiaethau yn cael ei wneud ar y rheilffordd rhwng Bangor ac Afon-wen. Gyda'r datblygiadau diweddar gydag HS2 mae'n dod yn glir bod arian yn ddyledus i Gymru fel rhan o fformiwla Barnett, ac er bo'r Gweinidog yn San Steffan yn dadlau bod HS2 dal yn brosiect sy'n dod a budd i Gymru, er bod hi'n glir nad ydi hynny'n wir, mae'n amlwg mai mater o amser bydd hi hyd y bod arian yn mynd i fod yn dod i gefnogi cynllun fel hyn. Gallai hyn felly olygu bod angen dechrau'r astudiaethau cyn gynted ac sy'n bosib er mwyn paratoi at hynny.

Trawslink Cymru sydd wedi bod yn ymgyrchu dros y blynyddoedd dwythaf er mwyn cael astudiaethau o'r llinellau yma, felly mae gwybodaeth ganddynt hwy wedi cael ei atodi fel rhan o'r llythyr yma. Gwelir astudiaeth achos strategol isod.

I nodi hefyd fel pwynt o wybodaeth, mae deiseb sydd wedi cael ei redeg hefyd gan Traws Link Cymru wedi cyrraedd 18,000 o lofnodion dros y blynyddoedd, sy'n golygu bod 30,000 wedi arwyddo'r ddau yn gyfangwbl er mwyn cefnogi ailagor y rheilffordd.

Edrychaf ymlaen at glywed y drafodaeth - ac os bod angen i mi gerdded o Fangor i Gaerdydd eto er mwyn amlygu pwysigrwydd y mater yma, byswn yn gwneud hynny ganwaith a mwy eto.